Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru
Planning & Environment Decisions Wales

# Penderfyniad

---

gan C MacFarlane BSc (Anrh) MSc MRTPI

Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru

Dyddiad y penderfyniad: 02/05/2025

Cais am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol cyfeirnod: CAS-02628-Y1D2Z7

---

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**ADRAN 62D**

**CAIS GAN: Seiont Ltd**

**CYFEIRIAD Y SAFLE: Safle Gwaith Brics Seiont, i'r de-ddwyrain o Gaernarfon, Gwynedd**

---

- Gwnaed y cais, dyddiedig 8 Mawrth 2024, o dan adran 62D Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015.
- Gwneir y cais gan Seiont Ltd.
- Yr Awdurdod Cynllunio Lleol yw Cyngor Gwynedd.
- Cadarnhawyd bod y cais yn ddilys ar 23 Mai 2024.
- Disgrifir y datblygiad a gynigir fel 'Datblygu gwaith cronfa weithredu wrth gefn tymor byr 20 MWe wedi'i danio gan nwy (y cyfeirir ato fel 'gwaith brigo') sy'n cynnwys deg injan wedi'u tanio gan nwy naturiol a seilwaith cysylltiedig. Bydd y setiau cynhyrchu, yr ystafell switsys, adeilad Gweithredwr y Rhwydwaith Dosbarthu a'r cyfleuster lles i gyd wedi'u cynnwys mewn amgaefa wedi'i ffensio, sydd ag arwynebedd o tua 3300m2. Bydd ceblau dwbl yn cael eu gosod mewn un ffos ar hyd ffordd gludo bresennol, i gysylltu'r gwaith â'r grid 33kV lleol presennol mewn man cysylltu ger ffin ogleddol y chwarel.'
- Gwnaed ymweliad â'r safle ar 4 Mawrth 2025.
- Cynhaliwyd gwrandawiadau ar 18, 19 a 20 Chwefror 2025.

---

**Penderfyniad**

1. Gwrthodir y cais.

**Materion Gweithdrefnol**

2. Yn unol â chyflwyniad Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2024 yn ystod y cyfnod archwilio, mae'r awdurdod i benderfynu ar y cais hwn wedi'i ddirprwyo i'r Arolygydd penodedig, yn hytrach na bod yn destun penderfyniad Gweinidogol.

3. Gohiriwyd y cyfnod archwilio rhwng 11 Gorffennaf 2024 a 21 Ionawr 2025 er mwyn caniatáu i'r ymgeisydd a'r Cyngor ddarparu gwybodaeth ychwanegol ac ar gyfer cyfnodau ymgynghori dilynol.

4. Roedd y cais yn destun proses sgrinio Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA) gan Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC) cyn ei gyflwyno, a ddaeth i'r casgliad nad oedd y cynnig yn ddatblygiad AEA at ddibenion Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017. Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth sydd ger fy mron, rwy'n fodlon bod digon o wybodaeth wedi'i darparu i asesu'n ddigonol effeithiau'r cynnig ar yr amgylchedd ac ni welaf unrhyw reswm i wyro oddi wrth gasgliad y cyfarwyddyd sgrinio AEA.

5. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LlC) Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 newydd, 'Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol (2025)' yn ystod y cyfnod archwilio. Mae'r ddogfen honno yn cadarnhau y dylid ei darllen ar y cyd â Pholisi Cynllunio Cymru (PCC) a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru a'i bod yn disodli TAN 14, 'Cynllunio Arfordirol (1998)' a'r TAN 15 blaenorol, 'Datblygu a Pherygl o Lifogydd (2004)'. Fodd bynnag, mae Datganiad Ysgrifenedig Gweinidogol dyddiedig 31 Mawrth 2025, a oedd yn cyd-fynd â chyhoeddi'r TAN newydd, yn cadarnhau y bydd cyfnod trosiannol ar gyfer ei weithredu. Yn benodol, bydd ceisiadau cynllunio a gyflwynwyd ac a gofrestrwyd cyn cyhoeddi'r TAN newydd, megis y rhai sy'n destun yr archwiliad hwn, yn parhau

i gael eu hasesu yn erbyn y fersiwn flaenorol. Rwyf wedi ystyried y cais hwn yn unol â hynny.

6. Cynhaliwyd yr ymweliad ffurfiol â'r safle yn ystod bore yn yr wythnos, a chynhaliwyd ymweliad atodol gyda'r nos â'r ardal gyfagos yn ystod oriau gyda'r nos yn yr wythnos ar 20 Chwefror 2025.

**Rhesymau**

7. Rwyf o'r farn mai'r prif faterion wrth benderfynu ar y cais yw:

   (i) A fyddai'r datblygiad arfaethedig yn dderbyniol o ran polisïau cynllunio sy'n ceisio mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd;
   (ii) Effaith y datblygiad arfaethedig ar gymeriad ac ymddangosiad yr ardal;
   (iii) Effaith y datblygiad arfaethedig ar amodau byw, o ran sŵn;
   (iv) Effaith y datblygiad arfaethedig ar ansawdd aer, o ran iechyd dynol ac ecoleg;
   (v) A fyddai'r datblygiad arfaethedig yn dderbyniol o ran perygl llifogydd; ac
   (vi) A fyddai unrhyw niwed a nodwyd yn gysylltiedig â'r materion uchod yn cael ei orbwyso gan fanteision y cynnig.

*Y newid yn yr hinsawdd*

8. Ac yntau'n gyfleuster cynhyrchu trydan wedi'i bweru gan nwy, byddai'r cynnig yn llosgi tanwydd ffosil i gynhyrchu pŵer, gan arwain at allyriadau carbon. Nid yw'r cynllun datblygu, sy'n cynnwys 'Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040' (CD) a 'Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026' (CDLl), yn cynnwys unrhyw bolisïau sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â chynigion o'r fath.

9. Mae Polisi PS 5 y CDLl yn cefnogi datblygiadau lle maent yn gyson ag egwyddorion datblygu cynaliadwy, a dylai pob cynnig liniaru'r hyn sy'n peri newid hinsawdd. Ymhelaethir ar hyn ym Mholisi PS 6, sy'n datgan, er mwyn lleddfu effeithiau newid hinsawdd, caniateir cynigion dim ond os ydynt wedi rhoi ystyriaeth i'r hierarchaeth ynni a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, ac wedi ymateb i hyn.

10. Mae Polisïau PS 7 ac ADN 3 y CDLl yn hyrwyddo datblygiad technolegau ynni adnewyddadwy sy'n cyfrannu at ddyfodol carbon isel, a'u cynnwys o fewn cynlluniau. Mae Polisïau 17 a 18 CD, er eu bod yn rhoi cefnogaeth gref i'r egwyddor o ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy a charbon isel, hefyd yn dawel ar fater cynlluniau ynni eraill. Mae Polisi 24 CD yn ailadrodd y pwyntiau wrth fynd i'r afael hefyd â lleoliadau penodol yng Ngogledd-orllewin Cymru a chynigion ynni niwclear. Er bod y polisïau hyn gyda'i gilydd yn dangos ffocws ar ddarparu ffynonellau cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel, nid wyf o'r farn, yn absenoldeb safiad polisi penodol, ei bod yn dilyn bod datblygiadau sy'n defnyddio ffynonellau eraill o ynni yn gwbl annerbyniol fel mater o egwyddor.

11. Mae PCC yn nodi bod yn rhaid i drydan carbon isel ddod yn brif ffynhonnell ynni yng Nghymru, ac y disgwylir i'r galw cyffredinol am bŵer gynyddu, ac mae hefyd yn cydnabod yr angen i integreiddio prosesau cynhyrchu ynni adnewyddadwy â gwasanaethau storio a gwasanaethau hyblygrwydd eraill, er mwyn lleihau'r angen am brosesau cynhyrchu newydd ac atgyfnerthu system grid (paragraffau 5.7.1-5.7.2).

12. Er nad yw Polisi Cynllunio Cymru yn diffinio ‘gwasanaethau hyblygrwydd’, byddai’r cynnig yn galluogi ymateb yn gyflym i fodloni cynnydd tymor byr mewn galw am drydan, gan roi hyblygrwydd i gydbwyso cyflenwad a galw gan ddefnyddwyr. Mae hyn yn cefnogi fy nghanfyddiad nad yw polisi lleol a chenedlaethol, er ei fod yn canolbwyntio ar ddibyniaeth gynyddol ar ffynonellau ynni adnewyddadwy, yn atal datblygiadau yn llwyr sy’n defnyddio ffynonellau anadnewyddadwy, ond yn hytrach cânt eu gosod ar waelod yr hierarchaeth ynni ym mharagraff 5.7.13.

13. Ar ben hynny, o ystyried natur ysbeidiol ac amrywiol ffynonellau ynni adnewyddadwy, byddai’r cynnig yn darparu adnodd wrth gefn i gynorthwyo â chydbwyso amrywiadau mewn cyflenwad a galw, a thrwy hynny’n cyfrannu at gyflenwad cyson o drydan, yn enwedig wrth i fwy o ddibyniaeth gael ei rhoi ar ddefnyddio ffynonellau adnewyddadwy i gyrraedd targedau LlC ar gyfer cynhyrchu ynni a osodwyd yn CD.

14. Er na fyddai’n lleihau’r galw am ynni ynddo’i hun, fel y nodir yn yr hierarchaeth ynni ym Mholisi PS 6 y CDLl, byddai’r cynnig yn cyfrannu at effeithlonrwydd ynni wrth alluogi’r rhwydwaith trydan i fodloni cyfnodau brig yn y galw am ynni dim ond pan maent yn digwydd, a byddai’n cyflawni darpariaeth wrth gefn i gefnogi’r defnydd o dechnolegau carbon isel a di-garbon mewn mannau eraill.

15. Nodaf y dadleuon a gyflwynwyd ynghylch y defnydd posibl o ffyrdd hyblyg eraill o gynhyrchu a storio trydan. Fodd bynnag, nid oes mathau eraill o dechnoleg ger fy mron fel rhan o’r cais, a rhaid i mi benderfynu ar y cynnig fel y’i cyflwynir ac yn ôl ei rinweddau ei hun. Nid wyf ychwaith wedi fy narbwyllo y byddai rhoi caniatâd yn arwain at atal cynigion ar gyfer ffyrdd eraill o gynhyrchu trydan rhag cael eu cyflwyno, neu fod digon o dystiolaeth y gall unrhyw ostyngiad mewn cynhyrchu trydan o ffynonellau adnewyddadwy gael ei briodoli’n uniongyrchol i ddatblygiadau sy’n llosgi nwy. Ar ben hynny, nid oes digon o dystiolaeth i fod yn sicr y bydd rhagor o ddefnydd o dechnolegau adnewyddadwy a charbon isel, a mesurau ar gyfer rheoli galw, yn digwydd ar raddfa ddigon mawr ac yn y dyfodol agos i ddileu diben y datblygiad arfaethedig.

16. O ran datblygiadau eraill a amlygwyd, a chynlluniau Glyn Rhonwy a Phentir yn benodol, nid oes digon o wybodaeth ger fy mron ynghylch statws y cynlluniau hyn i sicrhau y byddent yn negyddu rôl y datblygiad arfaethedig wrth gyfrannu at gyflenwad trydan dibynadwy a diogel.

17. Er y byddai’r cynnig, o’i ystyried ar ei ben ei hun, yn arwain at gynnydd mewn allyriadau tŷ gwydr, byddai’n cefnogi’r newid i ddibyniaeth gynyddol ar ynni adnewyddadwy a charbon isel, gan gyfrannu, felly, at fynd i’r afael â’r newid yn yr hinsawdd ar raddfa ehangach. Fel y cyfryw, rwyf o’r farn y byddai’r cynnig yn unol â gofynion Polisïau PS 5 a PS 6 y CDLl. Er nad ydynt berthnasol i natur y datblygiad a gynigir, rwyf hefyd o’r farn na fyddai’n mynd yn groes i Bolisïau PS 7 ac ADN 3 y CDLl, yn ogystal â Pholisïau 17 a 18 CD.

*Cymeriad ac ymddangosiad*

18. Mae safle’r cais wedi’i leoli y tu allan i ffin ddatblygu Caernarfon fel y’i nodir yn y CDLl, ac mae’n rhan o safle ehangach chwarel a hen waith brics Seiont. Mae’r safle’n cwmpasu ardal o dir yr aflonyddwyd arno, lle ceir lloriau caled mawr, cabanau symudol ac adeilad diwydiannol sylweddol gerllaw. Roedd eitemau gwahanol o beiriannau trwm, yn ogystal â deunyddiau adeiladu a pharaffernalia diwydiannol, hefyd yn bresennol ar adeg fy ymweliad. Mae’r tir o amgylch safle

ehangach y chwarel a’r gwaith brics yn codi i gyfeiriad yr anheddiad a’r ffordd osgoi gyfagos, ac mae llystyfiant trwchus a choed yn amgylchynu llawer o derfyn y chwarel a’r gwaith brics.

19. Er gwaethaf ymddangosiad diwydiannol a datblygedig presennol safle’r cais a’r ardal yn uniongyrchol o’i amgylch, mae caniatadau dros dro blaenorol yn ymwneud ag ardal y chwarel wedi dod i ben, a gosodwyd amodau yn gofyn am waith adfer. Er bod cynllun adfer manwl heb ei gymeradwyo hyd yn hyn, mae’r cynllun dangosol sy’n ofynnol gan amod 5 caniatâd cynllunio rhif C17/0011/19/MW yn dangos yr ardal sy’n cynnwys safle’r cais fel glaswelltir, a’r rhan fwyaf o safle ehangach y chwarel a’r gwaith brics wedi’i hadfer i lystyfiant naturiol.

20. Nodaf y caniatadau gwreiddiol sy’n dyddio o’r 1950au, ac yn ymwneud ag echdynnu, a gweithgynhyrchu brics, sy’n caniatáu i’r gweithgareddau hyn barhau tan 2042, a’r cymeradwyaethau dilynol yn 2007 yn dilyn proses adolygu. Fodd bynnag, o ystyried y cyfnod hir o amser sydd wedi mynd heibio ers i’r cynhyrchu ddod i ben yn 2008, a bod yr adeiladau cysylltiedig wedi’u gwaredu ers hynny, ac yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth i ddangos fel arall, nid oes llawer i’m darbwyllo bod gobaith realistig y bydd y gwaith a ganiateir yn ailddechrau yn y dyfodol. Ar ben hynny, mae adeiladu ffordd osgoi’r A487 Bontnewydd yn ddiweddar yn agos at y chwarel a’r gwaith brics, a’r newidiadau a wnaed i’r tirffurf o ganlyniad, yn codi ansicrwydd ynghylch hyfywedd, a sterileiddio posibl rhan o safle’r chwarel, o ran echdynnu.

21. Fel sefyllfa wrth gefn, felly, ni roddaf lawer o bwys ar y caniatadau gwreiddiol ac rwyf wedi asesu’r safle a’r ardal o’i amgylch ar sail ei gyflwr wedi’i adfer. Felly, byddai’r cynnig yn arwain at golli ardal naturiol a gwyrdd, wrth gyflwyno datblygiad adeiledig mewn ardal o gefn gwlad agored.

22. Fodd bynnag, byddai golygfeydd o’r datblygiad o’r ardal gyfagos yn gyfyngedig oherwydd y llystyfiant trwchus presennol sy’n amgáu llawer o ardal ehangach y chwarel, a byddai’n fwyaf gweladwy i gerbydau sy’n teithio tua’r gorllewin ar hyd y ffordd osgoi lle nad oes llawer o lystyfiant neu ddim llystyfiant o gwbl, nac unrhyw sgrinio gan dirffurf. Yn ddarostyngedig i’r amodau sy’n gofyn am gymeradwyo cynllun tirlunio, a gwaredu’r datblygiad os daw ei ddefnydd i ben, nid yw’r Cyngor o’r farn y byddai niwed gweledol i’r dirwedd o amgylch.

23. O ystyried y byddai topograffi isaf y safle yn lleihau ei amlygrwydd yn y dirwedd, ac y byddai golygfeydd o gerbydau sy’n teithio ar hyd y ffordd osgoi yn rhai byr ac yn cael eu gweld yng nghyd-destun yr anheddiad cyfagos, ac y byddai’r tirlunio ychwanegol yn cael yr effaith o’u hidlo, rwyf hefyd yn fodlon na fyddai’r cynnig yn cael effaith sylweddol ar gymeriad ac ymddangosiad yr ardal.

24. Er bod y Cyngor yn mynegi pryder ynghylch effaith y cynnig ar y cynllun adfer, ni roddwyd llawer o esboniad i nodi’r niwed y byddai hyn yn ei achosi. Oherwydd y byddai’r cynnig yn meddiannu rhan gymharol fach o gyfanswm yr ardal a gaiff ei adfer, ac absenoldeb unrhyw dystiolaeth i ddangos y byddai hyn yn niweidio’r gwaith o adfer yr ardal sy’n weddill, a’m canfyddiadau ynghylch yr effaith ar gymeriad ac ymddangosiad, nid wyf yn rhannu pryderon y Cyngor.

25. Felly, byddai’r cynnig yn cydymffurfio â Pholisi PCYFF 3 y CDLl, sy’n caniatáu cynigion lle maent yn ychwanegu at ac yn gwella cymeriad ac ymddangosiad y safle, ac yn parchu cyd-destun y safle a’i le yn y dirwedd leol.

26. Fel y nodir yn natganiad ategol yr ymgeisydd, mae mynediad at gyflenwad nwy a chysylltiad â'r grid trydan sy'n bodoli yn ofynion hanfodol ar gyfer cynigion yn ymwneud â chronfeydd gweithredu wrth gefn tymor byr, ac mae'r ddau hyn ar gael ar y safle. Er ei fod wedi'i leoli y tu allan i'r ffin ddatblygu, deuaf i'r casgliad, felly, fod y gofyniad i'r cynnig ddangos yr angen i'w leoli yng nghefn gwlad wedi'i fodloni. Fel y cyfryw, byddai'r cynnig hefyd yn cydymffurfio â Pholisi PCYFF 1 y CDLl, sy'n gwrthod datblygiadau y tu allan i ffiniau datblygu oni bai y gellir eu cyfiawnhau yn unol â pholisïau penodol neu oherwydd bod eu lleoliad yng nghefn gwlad yn hanfodol.

*Amodau byw*

27. Mae safle'r cais wedi'i leoli ychydig bellter oddi wrth anheddau ar Ffordd Felin Seiont i'r gorllewin, ac Ysbyty Eryri i'r gogledd-orllewin, ac anheddau yn Nhyddyn Llwydyn ymhellach i'r gogledd, ac mae wedi'i wahanu oddi wrth yr adeiladau hyn gan Afon Seiont. Yn ystod fy ymweliadau safle, nodais mai'r synau amlycaf yn yr ardal oedd sŵn yr afon a sŵn traffig o'r ffordd osgoi gyfagos, yn ogystal ag ambell i symudiad gan gerbydau a cherddwyr mewn cysylltiad â'r datblygiadau preswyl a'r ysbyty.

28. Y brif ffynhonnell sŵn o'r datblygiad arfaethedig fyddai'r injans, a fyddai'n gweithredu i gynnal y rhwydwaith trydan ar adegau o alw mawr, yn gyffredinol yn ystod y bore ac yn gynnar gyda'r nos. Byddai'r oriau gweithredu blynyddol yn cael eu cyfyngu gan amod cynllunio.

29. Byddai unrhyw effaith sŵn o ganlyniad i gyfnod adeiladu'r datblygiad yn un byrdymor a gellid ei rheoli'n ddigonol gan amodau sy'n cyfyngu oriau gwaith ac yn gofyn am gadw at y cod ymarfer priodol ar gyfer safleoedd adeiladu, fel na fyddai niwed arwyddocaol i amodau byw, yn hyn o beth.

30. Codwyd pryderon ynghylch pa mor ddigonol yw mesuriadau sŵn cefndir yr ymgeisydd a ddefnyddiwyd yn yr Asesiad o Effaith Sŵn v1.0 a'r ymarfer monitro ychwanegol dilynol. Oherwydd nifer a hyd cymharol gyfyngedig y mesuriadau a wnaed, tywydd garw ar rai achlysuron, y diffyg monitro gan ymarferydd, ac amrywiadau yn lefel sŵn yr afon oherwydd glawiad, yn ogystal â'r gwyriadau yn y ffigurau o gymharu â mesuriadau gwirio'r Cyngor, cytunaf fod ansicrwydd sylweddol ynghylch cadernid y ffigurau a gyflwynwyd.

31. Wrth dderbyn bod lefelau cefndir yn debygol o fod yn isel, mae'r ymgeisydd yn cynnig gosod amod i gyfyngu sŵn gweithredol, yn seiliedig ar lefel gyfraddiad o 35 dBLAr, Tr, mewn derbynyddion cyfagos, fel lefel sy'n cynrychioli effaith isel, gyda chyfyngiadau ychwanegol y tu mewn i anheddau. Nodaf y cyfeiriadau yn y cyhoeddiadau technegol a amlygwyd gan yr ymgeisydd i gefnogi'r ffigurau a ddyfynnwyd, fodd bynnag, nid yw'r rhain yn drothwyon derbynioldeb diffiniol i'w cymhwyso'n gaeth wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

32. O ystyried diffyg cadernid y mesuriadau cefndir a ddarparwyd, ni allaf fod yn hyderus y byddai'r terfynau arfaethedig, hyd yn oed pe cytunir eu bod yn lefel wrthrychol isel, yn briodol yn amgylchiadau penodol yr achos hwn. Nid wyf ychwaith o'r farn bod defnyddio terfynau sŵn a osodir uwchlaw lefelau cefndir mewn cais DAC arall a amlygwyd gan yr ymgeisydd (cyf. DNS/3217391) yn ddigon o reswm i gyfiawnhau dull o'r fath yn yr achos hwn. Mae gwahaniaethau amlwg rhwng y cais hwnnw â'r cais sydd ger fy mron, o ran y datblygiadau a gynigir, cymeriad y sŵn a achosir, a'r amgylchedd sŵn cyffredinol, fel nad yw'r amgylchiadau'n uniongyrchol gymaradwy. Felly, nid wyf yn cytuno â barn yr

ymgeisydd na fyddai monitro cefndir ychwanegol yn cyflawni llawer o ddiben ac na fyddai'n gymesur.

33. Rwy'n cydnabod bod yr ymgeisydd angen hyblygrwydd o ran y model terfynol a ddefnyddir ar gyfer y gwaith, a bod modelu'r Asesiad o Effaith Sŵn yn cynrychioli'r sefyllfa waethaf bosibl. Fodd bynnag, er y sicrwydd cyffredinol a roddwyd mewn cyflwyniadau llafar ac ysgrifenedig, mae diffyg tystiolaeth ddiriaethol ger fy mron i ddangos y gallai'r datblygiad, gan gynnwys yr elfennau heblaw'r injans, fodloni'r terfynau sŵn arfaethedig a'r dulliau technolegol o gyflawni hyn.

34. Ar ben hynny, er y byddai cyfyngiad ar y cyfanswm oriau gweithredu blynyddol, ac y disgwylir y byddai'r injans yn cael eu defnyddio am lai o amser ac yn ystod oriau brig yn unig, mae diffyg sicrwydd ynghylch y patrwm gweithredu gwirioneddol ac am faint o amser, ac i ba raddau y gallai hyn newid neu gynyddu yn y dyfodol oherwydd digwyddiadau tywydd a ffactorau sy'n effeithio ar argaeledd mathau eraill o ynni. Felly, ni ellid dibynnu ar effaith sŵn traffig ffyrdd cyfagos, sy'n gyffredinol yn cynyddu yn ystod amseroedd teithio brig, i guddio sŵn yn effeithiol o'r datblygiad a gynigir.

35. O ystyried y gyfran sylweddol o'r flwyddyn y byddai'r oriau blynyddol amodol yn caniatáu o bosibl i'r datblygiad weithredu, a allai fod ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos, a gan ystyried yr ansicrwydd ynghylch amrywiaeth o faterion a nodwyd gennyf, nid wyf o'r farn bod y dystiolaeth wedi dangos yn ddigonol na fyddai unrhyw niwed arwyddocaol i amodau byw preswylwyr cyfagos o ganlyniad i aflonyddwch yn sgil gweithredu'r datblygiad.

36. Yn absenoldeb tystiolaeth ddigonol, nid wyf yn fodlon y byddai'n ddull priodol i ddefnyddio amodau i ohirio tan ddyddiad diweddarach y manylion ynghylch manylebau'r gwaith a chydymffurfio â therfynau sŵn, o ystyried y niwed parhaol posibl y gellir ei achosi i les preswylwyr cyfagos o ganlyniad i aflonyddu ar gwsg ac ymyrraeth â'u gallu i fwynhau eu mannau byw mewnol ac allanol heb amhariad sylweddol.

37. Felly, deuaf i'r casgliad y byddai'r cynnig yn methu cydymffurfio â Pholisi PCYFF 2 y CDLl sydd, ymhlith pethau eraill, yn ceisio atal effeithiau andwyol annerbyniol ar amwynder preswylwyr oherwydd sŵn.

*Ansawdd aer*

38. Byddai allyriadau o'r cynnig yn rhyddhau Ocsidau Nitrogen (NOx) i'r aer. O ran iechyd dynol, mae Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd Aer v2.1 yr ymgeisydd yn nodi ystod o dderbynyddion yn yr ardal gyfagos, gan gynnwys anheddau, yr ysbyty, dwy ysgol a chartref nyrsio. Nodaf nad yw'r Cyngor yn codi unrhyw bryderon ynghylch dewis y derbynyddion hyn, ac ar sail yr ystod o ddefnyddiau a'u lledaeniad daearyddol, rwyf o'r farn bod y rhain yn briodol at ddibenion yr asesiad. Daw'r Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd Aer i'r casgliad y byddai effaith ddibwys ar y derbynyddion a nodwyd yn y tymor hir, ac ychydig o effaith ar nifer fach ohonynt yn y tymor byr.

39. Er bod nifer o anghysondebau rhifiadol wedi'u nodi yn yr Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd Aer, o ystyried yr esboniadau a roddwyd mewn cyflwyniadau ysgrifenedig ac yn ystod gwrandawiadau, rwy'n fodlon bod y rhain yn gymharol gyfyngedig o ran eu heffaith ac nad ydynt yn tanseilio nac yn newid yn sylfaenol y canfyddiadau yn yr Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd Aer.

40. O ran asesu effeithiau byrdymor, rwy’n cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch y rhagdybiaethau a’r dull a ddefnyddiwyd yn yr Asesiad o’r Effaith ar Ansawdd Aer. Fodd bynnag, er nad yw derbynyddion byrdymor penodol wedi’u nodi, rwyf o’r farn bod y canlyniadau a gyflwynir mewn perthynas â’r ardal ehangach yn ddigon manwl i alluogi asesiad o effeithiau’r cynnig. Er ei bod yn bosibl nad yw defnyddio 2017 fel y flwyddyn feteorolegol waethaf yn gynrychiadol ar gyfer pob derbynnydd, mae’n briodol ar gyfer y mwyafrif a nodwyd, a gellid mynd i’r afael ag eithrio allyriadau cychwynnol o’r asesiad gydag amod wedi’i eirio’n addas i gyfyngu ar eu lefel. Felly, rwyf o’r farn bod canfyddiadau’r Asesiad o’r Effaith ar Ansawdd Aer yn ddigon cadarn i lywio fy mhenderfyniad.

41. Rwy’n cydnabod bod PCC yn datgan nad yw amcanion ansawdd aer cenedlaethol yn lefelau ‘diogel’ o lygredd, a’i bod yn ddymunol cadw lefelau llygredd mor isel â phosibl. Fodd bynnag, byddai’r allyriadau a ragwelir yn cynrychioli canran fach o’r Safon Ansawdd Aer, ar eu pen eu hunain ac ar y cyd â chrynodiadau cefndir $NO_2$ presennol. Nodaf hefyd fod y crynodiadau cefndir a adroddwyd, sy’n ystyried y ffordd osgoi a agorwyd yn ddiweddar, wedi gostwng ers llunio’r Asesiad o’r Effaith ar Ansawdd Aer, ac y byddai’r cynnig yn unol â thargedau llymach Sefydliad Iechyd y Byd. Er bod yr Asesiad o’r Effaith ar Ansawdd Aer yn nodi crynodiad uwch o allyriadau yn nes at y safle, a fyddai’n effeithio ar Hawl Tramwy Cyhoeddus, o ystyried natur dros dro ac achlysurol debygol unrhyw symudiadau ar hyd y llwybr hwn, nid wyf o’r farn bod hyn yn tanseilio’n sylweddol y casgliadau a luniwyd o’r Asesiad o’r Effaith ar Ansawdd Aer.

42. Am y rhesymau hyn, rwyf o’r farn na fyddai’r cynnig yn arwain at effaith andwyol arwyddocaol ar dderbynyddion dynol cyfagos. Wrth wneud y canfyddiad hwn, rwyf hefyd wedi ystyried y diffyg gwrthwynebiad gan y Cyngor a Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus Amgylcheddol Cymru mewn perthynas â’r effaith ar iechyd, yn ddarostyngedig i amodau sy’n cyfyngu ar yr oriau gweithredu blynyddol, manyleb y gwaith, a monitro cefndir pellach.

43. Gan droi at fuddiannau ecolegol, er y byddai’r Crynodiad Amgylcheddol a Ragwelir ar gyfer NOx yn sylweddol is na’r Safon Ansawdd Aer ym mhob derbynnydd ecolegol a nodwyd, yn nerbynyddion coetir hynafol E1 ac E3, byddai dyddodiad nitrogen maethol ac asid yn uwch na throthwy’r Llwyth Critigol o 1% ar gyfer Cyfraniad Proses y cynnig. Byddai’r cynnig hefyd yn golygu y byddai’r Crynhoad Amgylcheddol a Ragwelir yn sylweddol uwch na 100% o’r Llwyth Critigol, fodd bynnag, mae llawer o hyn i’w briodoli i grynoadau cefndir presennol sydd eisoes yn uwch na’r meini prawf asesu. Er hynny, mae’r Asesiad o’r Effaith ar Ansawdd Aer yn nodi bod potensial ar gyfer effeithiau arwyddocaol tebygol o ran dyddodiad nitrogen maethol ac asid yn nerbynyddion E1 ac E3, ac y dylid ceisio cyngor pellach.

44. Er fy mod yn cydnabod nad yw mynd y tu hwnt i drothwy’r Llwyth Critigol yn rhoi sicrwydd y bydd niwed yn digwydd, mae’n amlwg y byddai’r cynnig yn arwain at gyfraniadau ychwanegol i amgylchedd sydd eisoes yn uwch na’r meini prawf asesu. Ar ben hynny, mae diffyg tystiolaeth sylweddol ger fy mron i wrthddweud neu ymhelaethu ar ganfyddiadau’r Asesiad o’r Effaith ar Ansawdd Aer mewn perthynas ag effeithiau arwyddocaol tebygol posibl. Nodaf fod Asesiad o’r Effaith Ecolegol yr ymgeisydd yn argymell plannu ychwanegol ar gyfer amsugno nitrogen er mwyn lliniaru effaith allyriadau, fodd bynnag,

cadarnhawyd yn y gwrandawiad bod hyn yn rhagflaenu llunio'r Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd Aer, ac o ystyried y diffyg manylion ynghylch effeithiolrwydd mesurau o'r fath, mae hyn yn methu dangos y byddai mesurau lliniaru digonol yn cael eu darparu.

45. Er y gellid dadlau bod cyfran sylweddol o goetiroedd y DU yn profi amgylchiadau gormodol tebyg, nid wyf o'r farn bod bodolaeth amgylcheddau anffafriol mewn mannau eraill yn rheswm dros ganiatáu niwed yn yr achos hwn. O ystyried y dystiolaeth sydd eisoes ger fy mron o effeithiau andwyol posibl, ni fyddai'r amodau arfaethedig sy'n ymwneud â monitro a lliniaru pellach lle bo angen yn briodol oherwydd y diffyg sicrwydd y gellid mynd i'r afael yn ddigonol â'r effeithiau hyn. Felly, deuaf i'r casgliad na fyddai'r cynnig yn dderbyniol o ran y gostyngiad posibl mewn bioamrywiaeth a achosir gan gynnydd mewn dyddodiad nitrogen ac asid ar dderbynyddion y coetir hynafol cyfagos.

46. Yn ogystal, mae'r Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd Aer yn nodi bod y coridor afon coediog i'r gogledd o safle'r cais yn profi lefelau uwch fyth o ddyddodiad nitrogen. Er nad yw'n safle ecolegol dynodedig, mae'r niwed a all ddigwydd i'r ardal hon yn ychwanegu ymhellach at fy mhryderon ynghylch effeithiau andwyol posibl y cynnig.

47. Gan ddwyn y cyfan o'r uchod ynghyd, deuaf i'r casgliad y byddai'r cynnig yn dderbyniol o ran ei effaith ar ansawdd aer mewn perthynas ag iechyd dynol, ac fel y cyfryw byddai'n cydymffurfio â Pholisi PCYFF 2 y CDLl, sydd â'r nod o atal effeithiau andwyol annerbyniol ar iechyd trigolion preswylfeydd lleol. Fodd bynnag, byddai'n achosi niwed mewn perthynas ag effaith ansawdd aer ar fuddiannau ecolegol, ac felly byddai'n methu cydymffurfio â Pholisïau PS 19 ac AMG 5 y CDLl, sydd â'r nod o warchod coed a choetiroedd o werth ecolegol, a diogelu a, lle bo hynny'n briodol, gwella bioamrywiaeth.

*Perygl llifogydd*

48. Byddai'r ceblau tanddaearol arfaethedig yn rhedeg o'r brif amgaefa i'r pwynt cysylltiad â'r grid i'r gogledd-ddwyrain, ac wrth wneud hynny, byddai'n croesi parth llifogydd C2, fel y nodir yn y Mapiau Cyngor Datblygu sy'n cyd-fynd â TAN 15, a pharthau llifogydd 2 a 3 ar y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, sy'n fwy diweddar. Fel y nodais yn gynharach, nid yw cyhoeddiad y TAN 15 newydd, sy'n ymwneud â'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, wedi llunio sail i'm hasesiad.

49. Mae TAN 15 paragraff 6.2 yn nodi na ddylid caniatáu datblygiad sy'n agored iawn i niwed, sy'n cynnwys gorsafoedd pŵer, o fewn parth C2. Felly, er y byddai mwyafrif y datblygiad y tu allan i'r parth hwn, byddai'r cynnig yn ei gyfanrwydd yn gwrthdaro â gofynion y TAN.

50. Mae Asesiad Canlyniadau Llifogydd yr ymgeisydd hefyd yn dangos y byddai'r fynedfa arfaethedig i gerbydau o Ffordd Felin Seiont y tu hwnt i'r dyfnderoedd goddefadwy a nodir yn TAN 15 yn ystod y llifogydd mwyaf eithafol. Er nad yw wedi'i gynnwys o fewn terfyn llinell goch safle'r cais, o ystyried diffyg mynedfa arall awdurdodedig i gerbydau, a chyflwyniadau'r ymgeisydd yn cadarnhau'r defnydd o Ffordd Felin Seiont, mae'n amlwg y byddai'r datblygiad yn ei gwneud yn angenrheidiol i ddefnyddio'r llwybr mynediad hwn. Felly, byddai'r datblygiad yn methu cydymffurfio â gofynion y TAN yn hyn o beth, hefyd.

51. Yn seiliedig ar yr uchod, ac yn ogystal â bod yn groes i TAN 15, byddai'r cynnig yn gwrthdaro â nod ehangach PCC a Pholisi PS 6 y CDLl o leoli datblygiadau i ffwrdd o ardaloedd lle mae perygl llifogydd.

52. Fodd bynnag, byddai'r ceblau'n cael eu dylunio a'u gosod i wrthsefyll llifogydd heb eu difrodi, a fyddai'n osgoi niwed i weithrediad y datblygiad. Mewn perthynas â mynediad, mae absenoldeb staff parhaol ar y safle yn ystod cyfnod gweithredu'r datblygiad yn golygu mai ychydig o ddefnydd fyddai'n cael ei wneud o'r llwybr mynediad, ac eithrio ar gyfer ymweliadau cynnal a chadw, a fyddai'n achlysurol ac y gellid eu cynllunio i osgoi digwyddiadau tywydd eithafol. Byddai'r cyfnod adeiladu yn un byrdymor a gellid ei gynllunio yn yr un modd i osgoi presenoldeb staff ar y safle yn ystod cyfnodau o berygl llifogydd wrth ddefnyddio rhybuddion llifogydd. Felly, rwyf o'r farn na fyddai llawer o berygl o niwed i fywyd neu eiddo oherwydd llifogydd, ac ni fyddai gwrthdaro mawr â pholisïau lleol a chenedlaethol.

*Manteision*

53. Fel y disgrifiwyd yn gynharach, mae polisi cenedlaethol a lleol yn nodi'n glir yr angen i hyrwyddo'r defnydd o ffynonellau ynni adnewyddadwy a charbon isel, a chynyddu cyfran y defnydd o drydan a gynhyrchir o'r ffynonellau hyn. Fodd bynnag, mae'r cyflenwad sydd ar gael o ffynonellau o'r fath yn amrywio, yn enwedig yn gysylltiedig â thywydd cyfnewidiol, a gall fod yn anodd ei ragweld yn gywir.

54. Byddai'r cynnig yn darparu gwasanaeth wrth gefn i gefnogi'r grid, gan ganiatáu hyblygrwydd er mwyn cydbwyso cyflenwad a galw yn gyflym, gan gyfrannu felly at ddarparu cyflenwad dibynadwy o drydan. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau lles cymunedau, busnesau a darpariaeth gwasanaethau lleol, yn enwedig o ystyried y bydd mwy o ddibyniaeth ar ffynonellau ynni adnewyddadwy ac y bydd y galw am drydan yn parhau i gynyddu yn y dyfodol.

55. Mae diffyg tystiolaeth sylweddol i gefnogi pryderon a godwyd ynghylch cyfyngiadau technegol sy'n deillio o leoliad y safle, ac o ganlyniad, nid oes gennyf unrhyw reswm i ystyried y byddai'r cynnig yn methu cyflawni'r manteision a ddisgrifiwyd. Rwy'n cydnabod y llythyr gan SP Energy Networks a gyflwynwyd gyda'r cais; fodd bynnag, mae'n amlwg bod y cynnwys yn ymwneud â thelerau cynnig am gysylltiad yn unig, ac nid yw'n cyfeirio at yr angen penodol am y cyfleuster fel y nodwyd gan yr ymgeisydd. Er hynny, rhoddaf bwys sylweddol i fanteision y cynnig o ran cyfrannu at gyflenwad trydan diogel a di-dor.

56. Mae'r Datganiad Iaith Gymraeg a gyflwynwyd yn nodi na fyddai angen unrhyw weithwyr parhaol yn ystod y cyfnod gweithredu, a disgwylir i'r rolau adeiladu gael eu llenwi gan tua 10-12 o weithwyr presennol rhiant-gwmni'r ymgeisydd. Felly, byddai'r manteision cadarnhaol i'r economi leol wrth greu swyddi yn gyfyngedig iawn o ran graddfa, a rhoddir ychydig iawn o bwys ar hyn.

**Materion Eraill**

57. Byddai'r traffig a achosir mewn cysylltiad â'r cynnig yn deillio o ddanfon deunyddiau a pheiriannau i'r safle, yn ogystal â theithio gan bersonél, yn ystod y cyfnod adeiladu. Yn ystod y cyfnod gweithredu, byddai personél yn ymweld at ddibenion cynnal a chadw a byddai nifer yr ymweliadau yn isel iawn. Gellid trefnu manylion rheoli traffig wrth osod amod sy'n gofyn am Gynllun Rheoli

Amgylcheddol Gwaith Adeiladu. Oherwydd natur dros dro a byrdymor y cyfnod adeiladu, a'r lefel isel o symudiadau cerbydau yn ystod y cyfnod gweithredu, byddai'r cynnig yn dderbyniol mewn perthynas â diogelwch ar y ffyrdd.

58. O ystyried y pellteroedd gwahanu rhwng safle'r cais a'r Safle Treftadaeth y Byd, Heneb Gofrestredig ac adeiladau rhestredig yn yr ardal ehangach, a natur dros dro unrhyw aflonyddwch yn ystod y cyfnod adeiladu, ni fyddai'r cynnig yn arwain at niwed i'r nodweddion hyn o'r amgylchedd hanesyddol na'u lleoliadau.

59. Yn ddarostyngedig i gynnwys amodau, nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwrthwynebu'r cynnig o ran yr effaith ar rywogaethau a safleoedd a warchodir. Yn benodol, o ran safleoedd yn yr ardal ehangach a ddiogelir dan gyfraith Ewrop, nodaf fod adroddiad Rheoliadau Cynefinoedd yr ymgeisydd wedi dod i'r casgliad y gellir diystyru effeithiau arwyddocaol ar safleoedd Ewropeaidd a'u nodweddion. Fodd bynnag, nid wyf wedi bwrw ymlaen â chynnal asesiad i weld a fyddai effaith arwyddocaol debygol ar nodweddion cymhwyso'r safleoedd Ewropeaidd cyfagos oherwydd rwyf wedi canfod bod y cynnig yn annerbyniol ar seiliau eraill. Hyd yn oed pe bai'r cynnig yn dderbyniol yn hyn o beth, byddai'n ffactor niwtral o ran cydbwysedd cynllunio o ystyried ei fod yn ofyniad a ddisgwylir ar gyfer pob datblygiad.

60. Gan roi mater yr effaith ar safleoedd Ewropeaidd o'r neilltu, mae'r cynnig yn awgrymu mesurau lliniaru i osgoi effeithiau andwyol uniongyrchol ac anuniongyrchol oherwydd llygredd golau a dŵr, gyda chynllun rheoli a gwella ecolegol i'w ddarparu. Ar sail y dystiolaeth sydd ger fy mron, rwy'n fodlon, yn ddarostyngedig i amodau yn ei gwneud yn ofynnol i gyflwyno Cynllun Rheoli Amgylcheddol Gwaith Adeiladu, cynllun rheoli ecolegol a manylion goleuo, y byddai'r cynnig yn dderbyniol o ran buddiannau ecolegol nad aed i'r afael â nhw eisoes fel prif fater yn fy arfarniad.

61. Yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth sylweddol i'r gwrthwyneb, ac o ystyried y diffyg gwrthwynebiad gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, ni welaf unrhyw reswm dros ystyried y byddai'r cynnig yn achosi risg annerbyniol mewn perthynas â thrychinebau neu argyfyngau eraill.

62. Daw cyflwyniad yr ymgeisydd i'r casgliad na fyddai unrhyw effeithiau cronnol arwyddocaol ar y cyd â'r cynnig a'r datblygiadau yn Ystad Ddiwydiannol Peblig, a'r gwaith cymysgu concrit arfaethedig ar dir cyfagos. Fodd bynnag, mae'r ddau gais heb eu penderfynu hyd yn hyn gan y Cyngor, ac fel y cyfryw, nid ydynt wedi dylanwadu ar fy asesiad o rinweddau cynllunio'r cais sydd ger fy mron.

**Cydbwysedd Cynllunio a Chasgliad**

63. Byddai'r cynnig yn arwain at niwed i amodau byw meddianwyr cyfagos, mewn perthynas â sŵn ac, oherwydd ansawdd aer, ecoleg. O ystyried oes anghyfyngedig bosibl y datblygiad a'r effeithiau hirdymor ar les preswylwyr cyfagos, a'r ddyletswydd i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, rhoddaf bwys sylweddol i'r materion hyn.

64. Ni roddaf lawer o bwys i'r gwrthdaro â pholisïau sy'n ymwneud â llifogydd, gan fy mod wedi canfod y byddai'r cynnig yn dderbyniol o ran perygl gwirioneddol i fywyd ac eiddo oherwydd llifogydd.

65. Prif fantais y cynnig fyddai ei gyfraniad at gyflenwad dibynadwy o drydan, ac am y rhesymau a nodwyd yn gynharach, rhoddir pwys sylweddol i hyn hefyd yn

fy mhenderfyniad. Ni roddir llawer o bwys o blaid y cais i'r buddion economaidd cyfyngedig.

66. Byddai'r cynnig yn dderbyniol o ran polisïau cynllunio yn ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd, ac yn ddarostyngedig i osod amodau, yr effaith ar ansawdd aer i'r graddau y mae'n ymwneud ag iechyd dynol. Byddai hefyd yn dderbyniol mewn perthynas â diogelwch ar y ffyrdd, yr amgylchedd hanesyddol, buddiannau ecolegol eraill a diogelwch. Mae'r rhain, fodd bynnag, yn ddisgwyliadau arferol ar gyfer unrhyw ddatblygiad, ac felly, maent yn ffactorau niwtral o ran cydbwysedd cynllunio.

67. Wrth gydbwyso'r materion hyn, deuaf i'r casgliad bod y niwed sy'n gysylltiedig â'r cynnig, yn benodol mewn perthynas ag amodau byw ac ansawdd aer, yn ffactorau cymhellol sy'n gorbwyso manteision y datblygiad am y rhesymau a amlinellwyd gennyf yn gynharach yn fy mhenderfyniad. Yn unol â hynny, gwrthodir y cais am ganiatâd cynllunio.

68. Rwyf wedi ystyried y ddyletswydd i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, o dan adran 3 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LlCD). Rwyf wedi ystyried y ffyrdd o weithio a amlinellir yn adran 5 Deddf LlCD a chredaf fod canfyddiadau'r penderfyniad hwn yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy trwy ei gyfraniad tuag at un neu fwy o amcanion llesiant Gweinidogion Cymru, fel sy'n ofynnol gan adran 8 y Ddeddf.

*Claire MacFarlane*

AROLYGYDD